Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/VG/0301/18

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Government.Committee.Business@llyw.cymru

11 Mehefin 2018

Annwyl Dai

Ar 3 Mai, ymddangosais gerbron y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon fel rhan o Gyfnod 2 Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru). Yn ystod trafodion Cyfnod 2, ymrwymais i rannu braslun o'r canllawiau rydym yn bwriadu eu datblygu i gyd-fynd â chyflwyno isafbris am alcohol – os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno i basio'r Bil dan sylw.

Fel yr amlinellais yn fy ymateb i'r adroddiad ar y Bil a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chwaraeon ar 5 Mawrth, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ynghylch y Bil er mwyn cynorthwyo a hyrwyddo dealltwriaeth o'r drefn newydd arfaethedig. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu datblygu fel rhan o'r gwaith fydd yn cael ei wneud cyn gweithredu'r isafbris. Mae braslun cychwynnol o'r canllawiau hyn wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 i'r llythyr hwn. Y bwriad ar hyn o bryd yw y byddai'r canllawiau hyn yn cael eu hategu gan ddulliau cyfathrebu a deunyddiau ychwanegol ar gyfer manwerthwyr, awdurdodau lleol a sefydliadau gan gynnwys Byrddau Cynllunio Ardal, a darparwyr gwasanaethau a thriniaethau sy'n cefnogi'r rheini sy'n camddefnyddio sylweddau. Rhoddir ystyriaeth i'r ffordd y mae eraill wedi darparu canllawiau a deunyddiau cyfathrebu ategol mewn perthynas â gofynion deddfwriaeth debyg arall, a byddwn yn dysgu o'u harferion da.

Mae'r canllawiau bras yn ystyried rhai o'r materion a godwyd wrth graffu ar y Bil hyd yn hyn. Os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn pasio'r ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod y canllawiau ac unrhyw ddeunyddiau pellach y bwriadwn eu datblygu yn ymarferol ac yn ddefnyddiol i helpu manwerthwyr a'r rheini sy'n gorfodi'r ddeddfwriaeth. Bydd hyn yn cynnwys cydweithio â Chonsortiwm Manwerthu Cymru, Rhwydwaith Diwydiant Alcohol Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Byrddau Cynllunio Ardal a Phenaethiaid Safonau Masnach Cymru lle bo hynny'n briodol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu trafod â'r Trydydd Sector ynghylch datblygu deunyddiau ychwanegol ar isafbris am alcohol a dulliau cyfathrebu cysylltiedig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd yn gwneud hyn drwy weithio gyda'r Rhwydwaith Camddefnyddio Sylweddau, ac mae'r aelodau'n cynnwys ystod o randdeiliaid a darparwyr gwasanaethau a thriniaethau.

Yn gywir,

Vaughan Gething

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BRASLUN

Canllawiau ar Weithredu Isafbris am Alcohol yng Nghymru

DRAFT

- **Cyflwyniad**

Byddai'r adran hon yn darparu trosolwg o'r ddeddfwriaeth a'r ffordd y bwriedir y bydd yn ffurfio rhan o ddull ehangach a pharhaus Llywodraeth Cymru i leihau arferion yfed peryglus a niweidiol yng Nghymru.

Gallai ddarparu eglurhad byr ynghylch y rheswm dros gyflwyno'r ddeddfwriaeth a'r canlyniadau y rhagwelir y bydd yn ei chael ar iechyd cyhoeddus. Hynny yw, mai nod y ddeddfwriaeth yw mynd i'r afael â rhai o'r pryderon iechyd hirdymor a phenodol ynghylch effaith goryfed alcohol yng Nghymru. Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi ymrwymiad cadarn i wella a diogelu ymhellach iechyd poblogaeth Cymru – ac mae wedi'i thargedu'n benodol i ddiogelu iechyd yfwyr peryglus a niweidiol sy'n dueddol o yfed mwy o alcohol rhatach a chryfach.

DRAFT

Gallai'r adran hon hefyd amlinellu'r isafbris uned a fydd wedi'i bennu yn y rheoliadau, ynghyd â darpariaethau allweddol y ddeddfwriaeth. Y darpariaethau hyn (yn seiliedig ar y Bil sydd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd) yw:

- Y fformiwla ar gyfer cyfrifo'r isafbris cymwys am alcohol drwy luosi canran cryfder yr alcohol, ei gyfaint a'r isafbris uned;
- Pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth i bennu'r isafbris uned;
- Sefydlu gweithdrefn orfodi dan arweiniad awdurdodau lleol â phwerau i erlyn;
- Pwerau mynediad i swyddogion awdurdodedig awdurdodau lleol, troseddau sy'n ymwneud â rhwystro swyddog awdurdodedig, a'r pŵer i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig;
- Bod rhaid gosod adroddiad ar weithrediad ac effaith y ddeddfwriaeth gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yna'i gyhoeddi ar ddiwedd cyfnod adolygu o bum mlynedd (gan ddechrau ar y diwrnod y daw'r drosedd o gyflenwi alcohol am bris islaw'r isafbris cymwys i rym);
- Y bydd darpariaethau perthnasol y Ddeddf (ac unrhyw welliannau canlyniadol a wneir ganddi) yn cael eu diddymu ar ddiwedd cyfnod o chwe blynedd, oni bai y caiff rheoliadau eu gwneud gan Weinidogion Cymru yn darparu ar gyfer eu parhad.

- **Nod y canllawiau**

Byddai'r adran hon yn egluro at bwy mae'r canllawiau wedi'u hanelu i'w cefnogi – gan gynnwys manwerthwyr alcohol ac awdurdodau lleol.

Byddai'n nodi'r bwriad i ddarparu deunyddiau ychwanegol a dogfennau ategol ar yr isafbris uned er mwyn eu cynorthwyo ymhellach. Gallai'r rhain gynnwys ffeithluniau / posteri / taflenni gwybodaeth / Cyfrifiannell Isafbris Uned. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried datblygu pob un o'r rhain a byddai'n gwneud hynny mewn ymgynghoriad â manwerthwyr a rhanddeiliaid fel sy'n berthnasol.

Byddai'r adran hon yn egluro mai mater i'r llysoedd fydd dehongli'r ddeddfwriaeth yn gywir yn y pen draw, ond byddai'r canllawiau'n egluro'r effeithiau y bwriedir i'r ddeddfwriaeth eu cyflawni.

DRAFT

- **Pwy sy'n gymwys i dalu'r isafbris uned**

Os caiff y Bil ei basio yn ei ffurf bresennol, byddai'n drosedd i fanwerthwyr gyflenwi alcohol o safleoedd cymwys yng Nghymru, neu awdurdodi i hynny ddigwydd am bris islaw'r isafbris uned cymwys am yr alcohol.

Byddai'r adran hon yn amlinellu pwy fydd yn gymwys i dalu'r isafbris uned ac yn egluro diffiniadau allweddol – hy pwy fydd y manwerthwyr alcohol a pha safleoedd fydd yn destun y gofyniad at y dibenion hyn.

Bydd yn egluro mai cyfrifoldeb y manwerthwyr hyn yn y pen draw fydd sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r drefn arfaethedig.

Felly, mewn sefyllfa lle bo manwerthwr yn amau a yw wedi cydymffurfio â'r isafbris uned, yr opsiwn mwyaf diogel fyddai bod yn ofalus neu geisio cyngor cyfreithiol.

- **Sut i gyfrifo'r isafbris cymwys ar gyfer cynhyrchion alcoholig, gan gynnwys enghreifftiau**

Byddai hyn yn amlinellu sut y bydd yr isafbris cymwys am alcohol yn cael ei gyfrifo.

Os caiff y Bil ei basio yn ei ffurf bresennol, bydd yn cynnwys fformiwla ar gyfer sut y mae'n rhaid cyfrifo'r isafbris cymwys. Bydd y fformiwla hon yn cynnwys yr isafbris uned (a fydd yn cael ei bennu gan Lywodraeth Cymru mewn rheoliadau) canran cryfder yr alcohol a'r cyfaint.

Byddai'r fformiwla hon yn cael ei hegluro a byddai'r adran hon hefyd yn cynnwys nifer o enghreifftiau parod o sut i gyfrifo'r isafbris uned cymwys mewn perthynas ag enghreifftiau o gynhyrchion penodol, fel a ganlyn:

DRAFT

- Can 440ml o lager 4% alcohol yn ôl cyfaint (ABV)
- Potel 500ml o seidr pefriog 4.5% ABV
- Potel 750ml o win 12.5% ABV
- Potel 70cl o fodca 37.5% ABV

- **Cynigion arbennig yn ymwneud ag alcohol**

Mae adrannau 5 i 7 o'r Bil ar hyn o bryd yn amlinellu rheolau sy'n ymwneud â phennu'r isafbris cymwys mewn perthynas ag alcohol a gyflenwir drwy amrywiaeth o gynigion arbennig o dan y drefn arfaethedig.

Y bwriad yn y rhan hon yw cynnwys enghreifftiau cyffredin o gynigion arbennig a'r ffordd y bwriedir i'r drefn isafbris am alcohol effeithio arnynt. Byddai'n cynnwys canllawiau penodol ynghylch cyfrifo isafbris yr alcohol sy'n cael ei werthu fel rhan o'r canlynol:

- *Trafodiadau alcohol amleitem megis "prynu un, cael un yn rhad ac am ddim".* Mae adran 5 o'r Bil ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl alcohol a gyflenwir mewn trafodiad alcohol amleitem gael ei ystyried wrth bennu'r isafbris cymwys. Mae hyn yn osgoi amheuaeth ynghylch sut y mae'r drosedd yn adran 2 o'r Bil yn effeithio ar achosion pan na fo gan ddogn o'r alcohol a gyflenwir mewn trafodiad unrhyw bris gwerthu y gellir ei nodi, neu pan fo ganddo bris gwerthu sydd wedi ei aflunio drwy ostyngiad. Pan fo'r alcohol sy'n cael ei gyflenwi o gryfderau gwahanol, mae adran 7(2)

o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol eu bod yn cael eu cyfrifo ar wahân er mwyn pennu'r isafbris cymwys mewn perthynas â chryfderau gwahanol o alcohol. Mae cyfanswm y cyfrifiadau hynny yn darparu'r isafbris cymwys ar gyfer y trafodiad.

- *Alcohol a gyflenwir ynghyd â nwyddau a gwasanaethau eraill.* Mae categori arall, sef "cynnig arbennig" yn cynnwys bargeinion lle caiff alcohol ei gyflenwi ynghyd â nwyddau eraill ac eithrio alcohol, neu wasanaethau; naill ai lle cyflenwir y nwyddau eraill neu'r gwasanaethau a'r alcohol am un pris penodol, neu lle cyflenwir alcohol am bris gostyngol os cyflenwir nwyddau eraill neu wasanaethau. Mae llawer o'r cynigion y bydd yr adran hon yn gymwys iddynt yn debygol o fod yn gynigion sy'n cynnwys cyflenwi alcohol ynghyd â bwyd, ond nid ydynt yn gyfyngedig i achosion o'r fath. Byddai'n berthnasol er enghraifft pan fyddai coctel yn cael ei gyflenwi, gyda chymysgydd, am bris penodol (gyda'r dogn dialcoholaidd o'r coctel yn gyfystyr â nwydd ac eithrio alcohol). Fel gyda thrafodiadau alcohol amleitem, mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gyfrifiadau ar wahân gael eu cynnal at ddiben penderfynu ar yr isafbris cymwys am alcohol o gryfderau gwahanol a gyflenwir ar y cyd â nwyddau eraill neu wasanaethau. Byddai'r ddeddfwriaeth (fel y mae ar hyn o bryd) hefyd yn berthnasol lle disgrifir yr alcohol a gyflenwir gyda nwyddau eraill neu wasanaethau am ddim. Er enghraifft, cynnig a fyddai'n cynnwys potel o win "am ddim" wrth i chi brynu cyfuniad penodol o fwyd.

Byddai'r adran hon yn cynnwys enghreifftiau ymarferol o sut i gyfrifo'r isafbris cymwys os bydd cynigion arbennig. Nid yw'r isafbris uned wedi'i bennu eto – ac felly mae'r cyfrifiadau isod yn seiliedig ar isafbris uned enghreifftiol o 50c:

DRAFT

Trafodiadau alcohol amleitem

Enghraifft 1

Yn achos cynnig "prynu un, cael un yn rhad ac am ddim", pan fo dau focs o lager â chryfder o 4% yn cael eu disgrifio fel pe baent yn cael eu cyflenwi am bris un bocs, a chan dybio bod pob bocs yn cynnwys 10 can â chyfaint o 330ml yr un, byddai'r ddau focs yn cael eu trin fel pe baent wedi eu cyflenwi am y pris a delir am un bocs.

Gan gymryd bod un bocs wedi ei gyflenwi am bris gwerthu o £14, byddai'r isafbris cymwys mewn perthynas â'r lager yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

I yw £0.50; Cr yw 4 (cryfder yn ôl cyfaint y lager); Cy yw 6.6 litr (cyfanswm cyfaint yr 20 o ganiau).

0.5 X 4 X 6.6 = £13.20

Yn yr enghraifft hon, byddai'r pris gwerthu o £14 am y ddau focs yn uwch na'r isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwir, ac ni fyddai unrhyw drosedd o dan adran 2 wedi ei chyflawni.

Enghraifft 2

Pe bai 3 bocs o gwrw, lager neu seidr ar gael i'w prynu am un pris gwerthu o £30, byddai angen i'r isafbris am bob bocs gael ei gyfrifo er mwyn gweithio allan a oedd y pris gwerthu o £30 yn is na'r isafbris cymwys am y cyfuniadau gwahanol o alcohol a allai gael eu cyflenwi.

Gan dybio bod y bocs o gwrw yn cynnwys 10 can 440ml â chryfder yn ôl cyfaint o 6%; bod y bocs o lager yn cynnwys 12 o ganiau 440ml â chryfder o 4%; a bod y bocs o seidr yn cynnwys 12 o boteli 300ml â chryfder o 5%:

Yr isafbris ar gyfer y bocs o gwrw fyddai £13.20 (£0.50 X 6 X 4.4 litr (cyfanswm cyfaint y bocs)).

Yr isafbris ar gyfer y bocs o lager fyddai £10.56 (£0.50 X 4 X 5.28 litr).

Yr isafbris ar gyfer y bocs o seidr fyddai £9.90 (£0.50 X 5 X 3.96 litr).

Pan fo cwsmer yn dewis prynu dau focs o gwrw a bocs o seidr, yr isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwir fyddai £36.30 (sef cyfanswm yr isafbris o £26.40 am y ddau focs o gwrw a £9.90 am y seidr).

Felly, yn yr enghraifft hon, byddai'r pris gwerthu wedi bod £6.30 yn is na'r isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwir, a, chan dybio absenoldeb amddiffyniad, byddai'r manwerthwr yn agored i gael ei erlyn am gyflawni'r drosedd o dan adran 2.

Ond ni fyddai prynu 3 bocs o seidr gan yr un cwsmer yn arwain at y drosedd o dan adran 2, gan y byddai'r isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwir yn £29.70 (sef cyfanswm yr isafbris o £9.90 am bob bocs o seidr).

DRAFT

Cynigion sy'n cynnwys alcohol ynghyd â nwyddau eraill neu wasanaethau

Enghraifft 1

Pan fo tair eitem o fwyd a photel o win yn cael eu cyflenwi am un pris o £10, byddai'r pris gwerthu am y gwin yn cael ei drin fel pe bai'n £10.

Pe bai cyfaint y gwin yn 0.75 litr a'i gryfder yn ôl cyfaint yn 14%, yr isafbris cymwys am y gwin fyddai £5.25 (£0.50 X 14 X 0.75).

Yn yr enghraifft hon, byddai'r isafbris o £10 yn uwch na'r isafbris cymwys am y gwin, ac ni fyddai'r manwerthwr wedi cyflawni'r drosedd yn adran 2.

Enghraifft 2

Mewn achos pan fo cwsmer yn gallu trefnu noson blasu gwin mewn siop winoedd am bris o £25, a bod 3 photel o win, a ddisgrifir fel pe baent yn cael eu cyflenwi yn rhad ac am ddim, yn cael eu cyflenwi i'r cwsmer, byddai'r pris gwerthu am y gwin a gyflenwir gyda'r gwasanaeth yn cael ei drin fel pe bai'n £25.

Pe bai'r gwin yn cynnwys potel 0.75 litr o Pinot Grigio â chryfder yn ôl cyfaint o 12.5%; potel 0.75 litr o Merlot â chryfder o 14.5%; a photel 0.75 litr o Shiraz â chryfder o 13.5%; byddai'r isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwir yn gyfanswm o'r isafbris am bob potel.

Yr isafbris am y Pinot Grigio fyddai £4.69 (£0.50 X 12.5 X 0.75).

Yr isafbris am y Merlot fyddai £5.44 (£0.50 X 14.5 X 0.75).

Yr isafbris am y Shiraz fyddai £5.06 (£0.50 X 13.5 X 0.75).

Yr isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwir fyddai £15.19.

Yn yr enghraifft hon, byddai'r pris gwerthu o £25 yn uwch na'r isafbris cymwys am y gwin a gyflenwir, ac ni fyddai'r manwerthwr wedi cyflawni'r drosedd yn adran 2.

DRAFT

- **Disgowntiau / cwponau arian i ffwrdd / cardiau gwobrwyo / talebau ac ati**

Byddai'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am y ffordd y gellir defnyddio disgowntiau / cwponau arian i ffwrdd i brynu alcohol a'r hyn a olygir o ran y cynnig arfaethedig i gyflwyno isafbris am alcohol. Y cynnig ar hyn o bryd yw y byddai'n cynnwys gwybodaeth gyffredinol ynghyd ag enghreifftiau cyffredin gan gynnwys:

- Disgowntiau staff
- Pwyntiau teyrngarwch
- Cwponau / talebau brandiau cyfatebol
- Cardiau gwobrwyo
- Cwponau / talebau arian i ffwrdd
- Cwponau / talebau disgownt

- **Diodydd cynhwysol**

Byddai'r adran hon yn egluro y gall safleoedd cymwys barhau i gynnal ymgyrchoedd hyrwyddo os ydynt yn cyd-fynd â gofynion y Bil ac unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol berthnasol arall (gan gynnwys y cyfyngiad ar ymgyrchoedd hyrwyddo anghyfrifol o dan

Ddeddf Trwyddedu 2003). O dan y Bil, er enghraifft, gyda chynnig sy'n cynnwys potel o win gyda phryd o fwyd, byddai angen i'r manwerthwyr sicrhau nad yw pris cyffredinol yr ymgyrch hyrwyddo yn is na'r isafbris cymwys am yr alcohol.

- **Cyflenwi alcohol ar-lein a thros y ffôn**

Bydd yr isafbris cymwys yn berthnasol i alcohol a gyflenwir o safleoedd cymwys yng Nghymru i unigolyn yng Nghymru.

Byddai'r adran hon yn egluro sut y bydd y ddeddfwriaeth yn gymwys i alcohol a werthir dros y rhyngrwyd a thros y ffôn.

Bydd angen i fusnesau sicrhau na chaiff alcohol ei werthu am bris islaw'r isafbris ar-lein a thros y ffôn os caiff ei ddosbarthu o leoliad yng Nghymru i unigolyn yng Nghymru.

Os caiff yr alcohol ei brynu ar-lein neu dros y ffôn yng Nghymru a'i ddosbarthu o'r tu allan i Gymru neu i unigolyn o'r tu allan i Gymru, ni fydd y cynnig arfaethedig drwy'r Bil i osod isafbris uned yn gymwys.

DRAFT

- **Gorfodaeth**

Byddai'r adran hon yn crynhoi darpariaethau perthnasol y Bil sy'n sefydlu gweithdrefn orfodi dan arweiniad awdurdodau lleol.

Byddai hefyd yn nodi'r trwyddedau gwahanol sy'n bodoli o dan y ddeddfwriaeth a chanlyniadau cael eich euogfarnu o'r rhain.

Gallai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- beth ddylai manwerthwyr ei ddisgwyl;

- canlyniadau methu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth;
- gwybodaeth am hysbysiadau cosb benodedig.

- **Diweddaru systemau prisio – ar gyfer manwerthwyr**

Byddai'r adran hon yn nodi y byddai angen i fusnesau ac eraill sy'n gwerthu alcohol sicrhau bod eu systemau prisio wedi'u diweddaru a'u bod yn gywir er mwyn atal alcohol rhag cael ei werthu islaw'r isafbris uned. Er enghraifft, sicrhau bod prisiau'n gywir ar silffoedd / codau bar / bwydlenni / rhestrau pris.

- **Cyfathrebu**

DRAFT

Byddai hyn yn rhoi gwybodaeth am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau i gyfathrebu â manwerthwyr, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill ynghylch y ddeddfwriaeth. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cyfathrebu ynghylch unrhyw newidiadau i lefel yr isafbris uned yn y dyfodol ar hyn y byddai'n ei olygu o ran cyfrifo'r isafbris cymwys.

- **Deunyddiau defnyddiol eraill ar yr isafbris uned**

Byddai'r adran hon yn egluro'r bwriad i ddarparu ystod o ddeunydd cyfathrebu, hyfforddi a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar yr isafbris uned (ee ar-lein). Bwriad y dogfennau hyn fyddai darparu ystod gynhwysfawr o ddogfennau i gefnogi grwpiau a sefydliadau gwahanol i ddeall gofynion y ddeddfwriaeth a nodau iechyd y cyhoedd o gyflwyno isafbris uned. Byddant yn cynnwys deunyddiau ar gyfer manwerthwyr, awdurdodau lleol, Byrddau Cynllunio Ardal, darparwyr gwasanaethau a'r cyhoedd.

Byddai'r adran hon yn cynnwys dolenni i'r dogfennau hyn.

- **Cwestiynau Cyffredin**

Cynigir y byddai'r adran hon yn amlinellu cyfres o gwestiynau cyffredin arfaethedig ynghylch y ddeddfwriaeth a chyflwyno isafbris am alcohol, ynghyd â'r atebion. Hyd yn hyn, mae'r

trafodaethau â rhanddeiliaid wedi dangos bod fformat y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth yr Alban mewn perthynas â gweithredu'r isafbris uned yno, ynghyd â a fformat y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â gwahardd gwerthu alcohol am bris islaw cost y doll a TAW wedi bod yn ddefnyddiol. Yn seiliedig ar fformat y dogfennau hynny, gallai'r adran hon gynnwys cwestiynau tebyg i'r isod:

- Pryd fydd isafbris uned yn dod i rym yng Nghymru?
- Pa gynhyrchion fydd yn destun yr isafbris uned?
- A yw manwerthwyr yn dal i allu gwerthu cynhyrchion am y pris sydd wedi'i nodi arno?
- Sut bydd prisiau yn cael eu talgrynnu o dan y Bil?
- A fydd cost dosbarthu archeb yn effeithio ar gyfrifiad yr isafbris uned?
- Pa effaith fyddai unrhyw gynnydd mewn tollau a TAW yn ei chael ar yr isafbris cymwys?
- Sut y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei gorfodi?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y manwerthwyr yn cydymffurfio â'r gofynion?
- Sut y bydd isafbris uned yn effeithio ar alcohol sy'n cael ei werthu ar draws y ffin?
- A yw diodydd am ddim sy'n cael eu cynnig fel iawndal (ee am oedi wrth aros am bryd o fwyd) yn cyfrif fel gwerthiant?
- A oes modd defnyddio talebau anrheg i brynu alcohol?
- Sut y bydd isafbris uned yn effeithio ar gwsmeriaid sy'n prynu tocyn sy'n cynnwys pris pryd a diod?
- Sut y bydd isafbris uned yn effeithio ar werthiant stoc sydd wedi'i ddifrodi?

DRAFT

- **Rhestr wirio ar gyfer y camau defnyddiol**

Gallai'r adran olaf hon o'r canllawiau amlinellu rhai o'r camau ymarferol y gallai busnesau ddymuno eu cymryd cyn cyflwyno isafbris am alcohol.